

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CAERDYDD GWYBODAETH AM DDIOGELWCH I HELPU YSGOLION I BARATOI AR GYFER YMWELIADAU YSGOL AC ASESU RISGIAU

Cofiwch:

- fod ysgolion yn gyfrifol am wneud eu hasesiadau eu hunain o'r risgiau, ac
- na allwn ni lenwi, dilysu na llofnodi unrhyw ran o ffurflenni asesu risgiau ysgolion am nad ni sy'n gyfrifol amdanyn nhw.

Rydyn ni'n argymhell bod ysgolion yn cyfeirio at ddogfen 'Ymweliadau addysgol – arweiniad i ddiogelwch wrth ddysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth' sydd ar gael o [wefan Llywodraeth Cymru](#). Mae hwn yn egluro mai cyfrifoldeb athrawon ac arweinwyr grwpiau yw llenwi asesiadau o risgiau cyn mynd ar ymweliad.

Rhywbeth i'ch helpu chi i baratoi yw'r wybodaeth rydyn ni'n ei chynnig am ddiogelwch, ac nid yw'n cymryd lle'r angen am i chi wneud eich asesiad eich hun o risg sy'n benodol i anghenion eich grŵp gan ddilyn y canllawiau swyddogol a pholisïau'r ysgol/ awdurdod lleol.

Mae ein gwybodaeth am ddiogelwch yn amlinellu'r mesurau rheoli y mae'r Amgueddfa'n eu dilyn i osgoi neu leihau risgiau, ynghyd â'r rheolau ymddygiad ar gyfer grwpiau sy'n ymweld. Bydd eich asesiad o risg yn cymryd i ystyriaeth oedran, gallu ac anghenion penodol eich grŵp, unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'ch cludiant neu'r tywydd adeg eich ymweliad, yn ogystal â gwybodaeth yr amgueddfa am ddiogelwch.

Rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n rhoi copi o'r asesiad o risgiau/gwybodaeth berthnasol am ddiogelwch i'r holl athrawon/goruchwylywyr ar yr ymweliad.

Yn olaf, rydyn ni wedi cynnwys dyfyniadau o Bolisi Amddiffyn Plant yr Amgueddfa ar ddiwedd y ddogfen er gwybodaeth.

DATGANIAD DIOGELWCH

Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn derbyn ei chyfrifoldebau llawn o dan y Ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yn bodoli ynghyd ag asesiadau ysgrifenedig o risg a wnaed mewn perthynas â'n dyletswyddau cyfreithiol tuag at bobl nad ydynt yn aelodau o staff (h.y. ymwelwyr) sy'n dod i'r safle ac yn defnyddio ein cyfleusterau.

Gallwn eich sicrhau chi fod iechyd a diogelwch ymwelwyr ar y safle o'r pwys mwyaf i ni. Rydyn ni wedi cydweithio'n agos â'r awdurdod lleol ar faterion iechyd a diogelwch, ac rydyn ni am sicrhau y byddwch chi'n mwynhau ymweliad llawn hwyl a gwybodaeth.

Mae gennym ni bolisi recriwtio, hyfforddi ac asesu staff sy'n sicrhau bod yr holl staff sy'n gyfrifol am ddiogelwch a lles ymwelwyr/cyfranwyr yn gymwys i wneud eu gwaith. Ond mae natur grand yr adeilad, gan gynnwys y nifer o risiau serth a lloriau marmor yn golygu bod angen i'r ymwelwyr eu hunain gymryd gofal arbennig.

Gofynnir yn garedig i athrawon a staff eraill yr ysgol weithio mewn partneriaeth ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd trwy oruchwylio'r plant sydd yn eu gofal ar y safle.

Cyfrifoldeb yr ysgol yw'r disgyblion drwy gydol yr ymweliad, gan gynnwys amser cinio.

Rydyn ni'n argymhell yn gryf bod arweinwyr grwpiau'n dod ar ymweliad i baratoi er mwyn asesu 2 unrhyw risgiau posibl i'ch grŵp.

CEFNDIR	
Profiad	Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd wedi bod yn agored i'r cyhoedd ers 1927.
Manylion y Safle / Atyniad	<p>Mae'r Amgueddfa'n rhoi cyfle i ymwelwyr weld casgliadau celf, archaeoleg a hanes natur, ac mae oriel Esblygiad Cymru yn mapio ein hanes o'r cyfnod daearegol cynhanesyddol i pan ddaeth pobl i Gymru.</p> <p>Mae Canolfan Ddarganfod Clore yn rhoi cyfle i bobl drin a thrafod ein casgliadau.</p> <p>Mae ymweliad ysgol arferol yn para 2 i 3 awr.</p>
Nifer yr Ymwelwyr	Mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn croesawu 300,000 o ymwelwyr y flwyddyn ar gyfartaledd. Mae rhyw 34,000 o'r rhain yn dod mewn grwpiau addysg ffurfiol.
Manylion Cyswllt	<p>I drefnu ymweliad, trafod unrhyw ran o'ch ymweliad neu drefnu ymweliad i baratoi, cysylltwch â'r Swyddfa Addysg: Ffôn: 029 2057 3240</p> <p>E-bost : addysg@amgueddfacymru.ac.uk</p> <p>Os ydych chi'n poeni am unrhyw beth ar ôl eich ymweliad, neu os cawsoch chi broblemau mewn perthynas â rheolaeth y lleoliad neu iechyd a diogelwch aelodau o'r grŵp, byddwn ni'n hapus i drafod y materion hyn gyda chi.</p>

GWYBODAETH GYFFREDINOL	
Anifeiliaid	<p>Dim ond cŵn tywys i ymwelwyr â nam ar eu clyw neu ar eu golwg gaiff ddod i'r safle.</p> <p>Mae dŵr ar gael i'r cŵn yn y bwyty a'r siop goffi.</p> <p>Rhaid i gŵn fynd allan o'r adeilad i fynd i'r tŷ bach. Bydd y staff ar gael i'ch cyfeirio chi at le addas.</p>
Systemau Cyfathrebu	Mae gan y Wardeiniaid radios symudol dwy-ffordd.
Hanes Troseddol	Rydyn ni wedi gwneud archwiliad y Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol (NIS) ar bob aelod o staff. Mae'r archwiliadau cydnabyddedig hyn yn arbennig ar gyfer y sector amgueddfeydd ac yn gyfystyr ag archwiliad sylfaenol y CRB. Mae staff yr Amgueddfa sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â/neu heb oruchwyliaeth â phlant yn cael archwiliadau trylwyr y CRB.
Clirio'r Adeilad mewn Argyfwng	Mae trefniadau ar waith i glirio'r safle mewn argyfwng. Mae holl staff yr Amgueddfa'n gyfarwydd â'r trefniadau hyn ac yn eu hymarfer yn gyson. Dilynwch gyfarwyddiadau staff yr Amgueddfa mewn argyfwng.

<p>Cyfleusterau ar gyfer Ymwelwyr ag Anghenion Arbennig</p>	<p>Mae Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn ceisio darparu ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig. Cysylltwch â ni ymlaen llaw i holi pa drefniadau y gallwn ni eu gwneud ar gyfer ymwelwyr ag anghenion arbennig.</p> <p>Rhaid i ysgolion ac arweinwyr grwpiau sicrhau eu bod nhw'n gwneud trefniadau addas i oruchwylio a chynorthwyo disgyblion ag anghenion arbennig.</p> <p>Bydd y Wardeiniaid yn hapus i'ch helpu chi i wneud yn siŵr eich bod chi'n cael mynd i'r holl fannau cyhoeddus.</p> <p>Mae Canllawiau Mynediad ar gael ar ein gwefan neu ffoniwch Swyddfa Addysg Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar 029 2057 3240</p>
<p>Cymorth Cyntaf</p>	<p>Os oes angen Cymorth Cyntaf arnoch chi, cysylltwch ag aelod o staff yr Amgueddfa a fydd yn galw am gymorth.</p>
<p>Teithau Tywys / Gweithgareddau yng Nghwmni Dehonglydd</p>	<p>Bydd yr Amgueddfa wedi asesu risgiau'r gweithgareddau o dan sylw ac yn rhoi gwybod i chi pa risgiau sydd yna a sut caiff y risgiau yna eu rheoli.</p>
<p>Yswiriant/Atebolrwydd Cyhoeddus</p>	<p>Mae gan yr Amgueddfa yswiriant masnachol am gyfrifoldeb cyhoeddus (copi'n amgaeedig).</p>
<p>Plant Coll</p>	<p>Oherwydd maint a strwythur yr Amgueddfa, mae plant mewn perygl o fynd ar goll os byddan nhw'n crwydro i ffwrdd o'r grŵp.</p> <p>Dywedwch wrth y plant i siarad ag un o'r Wardeiniaid neu aelod o staff yr Amgueddfa os ydyn nhw ar goll.</p> <p>Os bydd aelod o'r grŵp yn sylwi bod rhywun ar goll o'r grŵp, dywedwch wrth un o'r Wardeiniaid neu aelod o staff yr Amgueddfa a fydd yn cymryd y camau priodol.</p>
<p>Maximum Group Sizes / Supervision</p>	<p>Gwnewch yn siŵr bod rhywun yn goruchwylio'ch disgyblion drwy'r amser. Rydyn ni'n awgrymu eich bod chi'n cadw at y cyfraddau canlynol:</p> <p>3 - 7 oed - 1 oedolyn cyfrifol : 6 phlentyn Blynyddoedd 3 i 6 (7 – 11 oed) : 1 oedolyn cyfrifol : 10 -15 plentyn Blwyddyn 7 + (11+ oed) : 1 oedolyn cyfrifol : 15 - 20 plentyn</p> <p>Dylai'r arweinwyr grwpiau fodd bynnag asesu'r risgiau ac ystyried lefel ddiogel o oruchwyliaeth ar gyfer eu grŵp.</p>
<p>Anghenion Meddygol</p>	<p>Dylai arweinwyr grwpiau neu ysgolion roi gwybod i staff y Swyddfa Addysg os oes gan unrhyw ddisgybl anghenion penodedig neu 4 anhwylder meddygol penodol. Bydd rhaid i ni ystyried hyn a thrafod trefniadau brys gyda chi.</p>

	Os yw hi'n ddiogel, byddwn ni'n ceisio cynnwys disgyblion ag anhwylderau penodedig neu ddifrifol yn y gweithgareddau a gynigir.
Ymddygiad Ymwelwyr	<p>Byddwn ni'n disgwyl i chi a'r plant sydd yn eich gofal:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beidio â mynd i fannau sydd ar gau i'r cyhoedd; • Cerdded o gwmpas yr orielau a'r adeilad, nid rhedeg; • Peidio â chyffwrdd â'r arddangosion; • Ymddwyn yn gall. <p>Ni chewch fwyta nac yfed yn yr orielau.</p> <p>Dylech chi ddiffodd ffonau poced yn ystod eich ymweliad.</p> <p>Mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i ofyn i grwpiau neu ymwelwyr sy'n ymddwyn yn wael neu'r afresymol adael y safle.</p> <p>Rhaid i unrhyw grwpiau o fyfyrwyr o dan 16 oed fod dan oruchwyliaeth bob amser. Arweinwyr y grŵp neu'r oedolion sy'n eu goruchwyllo sy'n gyfrifol amdanynt drwy gydol yr ymweliad. Gallwn ni wrthod gadael i grwpiau heb oruchwyliaeth fynd i rai o'r adeiladau.</p>
Archwiliadau i Gyfleusterau'r Safle	Mae staff yn archwilio'r cyfleusterau'n gyson ac yn cofnodi eu canfyddiadau.
Adnabod Staff y Safle	Mae holl staff yr Amgueddfa'n gwisgo bathodynau adnabod. Croeso i chi fynd atyn nhw os oes rhywbeth yn eich poeni chi. Byddan nhw'n gallu'ch helpu chi neu eich cyfeirio chi at y lle priodol i gael cymorth.
Traffic	Gwnewch yn siŵr bod y bysys yn gadael ei grŵp ar y palmant yn union o flaen yr Amgueddfa. Bydd hyn yn galluogi grwpiau i ymgasglu ar y palmant.
Cyfleusterau Lles	<p>Toiledau Mae toiledau cyhoeddus ar gael ar waelod y grisiau sy'n mynd i lawr o'r brif neuadd.</p> <p>Ystafell Frechdanau Mae ystafell ar gael i blant fwyta'u cinio. Mae hyn i lawr y grisiau ar flaen y brif neuadd. Rhaid bwcio'r cyfleuster yma ymlaen llaw trwy'r Swyddfa Addysg (029 2057 3240).</p>
Adeilad yr Amgueddfa	Mae yna risiau serth o amgylch yr Amgueddfa. Gallwch chi gyrraedd pob man mewn lifft.
Gweithgareddau	Caiff yr holl weithgareddau a gynigir eu hasesu am risgiau penodol ar sail y ddeddfwriaeth gyfoes, arferion gorau, canllawiau a gwybodaeth.
Adolygu	Caiff y ddogfen yma a'r wybodaeth gysylltiedig am ddiogelwch ei diweddarau'n gyson.

AMDDIFFYN PLANT AR SAFLEOEDD AMGUEDDFA CYMRU

Mae ein Polisi Amddiffyn Plant llawn ar y Wefan o dan Am Amgueddfa Cymru/Strategaeth a Pholisi. Darllenwch y darnau isod cyn eich ymweliad.

Cyfrifoldebau Arweinwyr/Athrawon wrth ymweld â'r Amgueddfa

Mae Amgueddfa Cymru am sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag niwed yn yr Amgueddfa. Yn ogystal â dyletswyddau'r Amgueddfa, rydyn ni'n gofyn bod arweinwyr/athrawon grwpiau yn cyflawni eu cyfrifoldebau eu hunain.

Yn benodol, bydd yr holl arweinwyr/athrawon yn:

- Sicrhau eu bod nhw'n goruwchwylio'r plant/pobl ifanc ar bob adeg
- Cysylltu ag aelod o staff yn achos damwain er mwyn sicrhau bod Trefn Argyfwng Amgueddfa Cymru yn cael ei dilyn
- Cysylltu ag aelod o staff os oes plentyn ar goll er mwyn dilyn trefn yr Amgueddfa.
- Sicrhau nad oes ganddynt, ac nad ydynt yn yfed diodydd meddwol nac yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon nac yn smygu ar dir yr Amgueddfa
- Peidio â cham-drin unrhyw blentyn/person ifanc ar lafar nac yn gorfforol
- Sicrhau bod gennych yswiriant digonol ar gyfer y grŵp a'r arweinydd
- Dweud wrth y grŵp sut i ymddwyn yn Amgueddfa Cymru
- Dilyn Rhagofalon Tân Amgueddfa Cymru

Hoffem atgoffa arweinwyr/athrawon mai nhw sy'n bennaf gyfrifol am les y plant sydd yn eu gofal bob amser.

Byddwn ni'n rhoi gwybod i'r arweinydd/athro cyfrifol am unrhyw bryderon (heblaw mewn achosion lle'r person hwn sy'n achosi pryder i ni) ac yn cyfeirio'r mater at yr ysgol/sefydliad wedyn.

Caiff pryderon am ymddygiad yr arweinydd/athro eu cyfeirio'n syth at yr ysgol/sefydliad ac efallai at yr heddlu hefyd.

Ymddygiad grwpiau yn yr Amgueddfa

Mae'r Amgueddfa am i'w holl ymwelwyr fwynhau eu hamser gyda ni. Felly rydyn ni'n disgwyl i bob ymwelydd ymddwyn yn gwrtais, ac yn dangos parch at eraill ac at eiddo'r Amgueddfa ar bob adeg wrth ymweld â'r Amgueddfa.

Felly ni ddylai arweinwyr grwpiau adael i neb yn y grŵp:

- Ymddwyn mewn ffordd fygythiol, ymosodol neu dreisgar
- Bwlio (ar lafar neu'n gorfforol)
- Gwneud unrhyw sylwadau rhywiol, hiliol neu sylwadau difriol eraill ar unrhyw berson neu grŵp arall
- Difrodi eiddo neu arddangosfeydd yr Amgueddfa
- Gadael sbwriel ar dir yr Amgueddfa
- Bwydo, cyffwrdd, dychryn neu frifo'r anifeiliaid
- Mynd i rannau o'r Amgueddfa sydd wedi eu cau â chortyn
- Defnyddio iaith anwedus
- Smygu
- Yfed alcohol y tu hwnt i'r mannau sydd wedi 'u clustnodi (h.y. y bwyty a'r mannau pinic) neu ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon
- Bwyta ac yfed heblaw yn y caffis, y bwyty a'r llefydd eraill sydd wedi eu clustnodi i ysgolion fwyta
- Defnyddio ffôn symudol yn yr orielau

Os na fyddwch chi'n cadw at y gofynion hyn, mae'r Amgueddfa'n cadw'r hawl i wrthod derbyn grŵp a/neu i ofyn i'r grŵp adael yn safle.

Our Reference: 0/WALE11
Date: 27 November 2023

TO WHOM IT MAY CONCERN

Policyholder: National Museum of Wales &/or NMGW Enterprises Ltd
Policyholder Address: National Museum Cardiff, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NP
Business Description: National Museum and Enterprises Company wholly owned by the Museum
Indemnity to Principals: Included

We are Insurance Brokers for the above client and this letter provides a brief outline of their insurance details for the period shown.

Insurer: Chubb Insurance Company
Policy Numbers: UKMSTC92060
Period of Insurance: 12 months from 23 November 2023
Class of Insurance: Employers Liability (Cover Applicable to Volunteers only)
Indemnity Limit: £10,000,000 including costs any one occurrence and/or series of occurrences arising out of any one event.

Insurer: Chubb Insurance Company/AXA XL (Citynet Insurance Brokers Ltd)
Policy Numbers: UKMSTC92060/B0241GC133414Y
Period of Insurance: 12 months from 23 November 2023 Public/Products Liability
Class of Insurance: £20,000,000 any one occurrence and unlimited in the period of insurance in respect of Public Liability and in total during the period of insurance in respect of Products Liability
Indemnity Limit: Worldwide (subject to Excluded Territories)

Geographical Limits

The policy cover shown above is subject to the full terms, conditions, exclusions and any specific warranties, endorsements and excesses applying. The information given is a summary of cover in force at the time of writing; cancellation or mid-term alterations can occur during the period of insurance. The current position can be confirmed upon request. Should the above-mentioned contract(s) of insurance be cancelled, assigned, or changed during the above policy period in such manner as to affect this document, no obligation to inform the Holder of this document is accepted by the Undersigned or by the Company

These statements have been made in good faith and we cannot accept any liability whatsoever for any inadvertent or negligent act, error, or omission on our part in preparing these statements or for any loss, damage or expense thereby occasioned to any recipient of this letter. Should any further information be required then please contact our offices.

Yours faithfully

E L Bodsworth

Emma Bodsworth BA (Hons) ACII

Tel: 01223 445407

Email: emmab@alanboswell.com

For and on behalf of Alan Boswell Insurance Brokers Limited